"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDÍD, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1875. [RHIF 31.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Crist a Christionogaeth	145
Esgusodion	149
Yr Aifft a Chanaan	152
Yr Yrfa Gristionogol	155
Y Pwlpud Undodaidd—Brasluniau	159
Swn, Gwres, Lliw	161
Breuddwyd Plentyn am y Seren	162
Manion	165
Gohebiaethau	166
Barddoniaeth	168

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1875. [RHIF. 31.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

CRIST A CHRISTIONOGAETH.

GALLWN dybied, er i ni amrywio llawer yn ein golygiadau am ei berson, ein bod yn agos yr oll o honom, yn cytuno mai bywyd, cymmeriad canolog, a ffaith fawr Cristionogaeth yw CRIST. Os dywedwn ei fod yn gymmeriad goruwch-ddynol, ni a briodolwn nerth Cristionogaeth i'w natur ddwyfol. Os dywedwn mai un o honom ni oedd, etto byddwn yn prisio Cristionogaeth fel yspryd yr hwn oedd yn ben coronog yr hil ddynol. Priodolwch iddo Dduwdod, ac edrychir ar Gristionogaeth fel yn ddyledus am ei holl ddylanwad i'r ffynnonell hono. Priodolwch iddo ddyndod yn unig, ac fe fydd sylwedd Cristionogaeth yn aros yn y bywyd hwnw ag oedd y mwyaf mawreddog o bob bywyd. Oddiar unrhyw olwg, Crist yw yspryd bywydol Cristionogaeth, hyd y nod oddiar olwg yr *Atheist*, oblegyd mae efe yn meddwl y bydd yn alluog i ddiddymu Cristionogaeth, os y gall ddiorseddu yr Iesu. Mae Cristionogaeth yn rywbeth dyfnach na chyfundrefn. Mae cyfundrefn yn beth ansefydlog, yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau a chwyldroadau, o herwydd cyflyrau ac angenion amrywiol bywyd, ac nid yw yn addas ar gyfer cymhwysiad cyffredinol. Mae cyfundrefnau yn lleol. Dyna'r gyfundrefn Annibynol, Bresbyteraidd, Fedyddiol, a Methodistaidd. Mae pob un o honynt yn dda yn ei ffordd, ond y mae yn gyfyngedig. Nid oes un o honynt na'r oll gyda'u gilydd yn diysbyddu Cristionogaeth; ac nid ydynt yn gwneyd i fyny Gristionogaeth; mae yn ddyfnach ac yn uwch nag unrhyw gyfundrefn, uwchlaw a thuhwnt iddynt i gyd. Mae yn myned i mewn

iddynt i gyd, yn fwy neu lai, ond nid yw'r llynoedd eglwysig yma byth yn diysbyddu dyfroedd llifeiriol y ffynnon.

Nid yw Cristionogaeth yn gyfundrefn o athroniaeth yn fwy nag yw yn drefniant Eglwysig. Amcan athroniaeth yw rhoddi esponiad cysson a threfnus o arddangosiadau naturiol a meddyliol, eu deddfau cyffredinol, a'u gweithrediad y naill ar y llall; ond nid oes dim o hyn mewn Cristionogaeth. Mae yr Iesu yn ddystaw mewn perthynas i ddeddfau natur, mater, a meddwl. Pa gyfrif ellir roddi o fodolaeth y byd, a'r gwahanol agweddau yr ymddengys natur o'n blaen ni? Beth yw yr enaid dynol, a beth yw achos y nodweddion y mae yn ddangos? O ba le y daeth ein syniadau am amser, lle, rhinwedd, a phethau ereill o'r un natur? A ydynt ddim ond ffrwythau profiad a sylw wedi dechreu yn nghyfnod boreu plentyndod, a'u parhau yn mlaen trwy fywyd? neu a ydyw'r enaid yn feddiannol arnynt ar ei ddyfodiad i'r byd, ac a ydynt yn ffurfiau a rhag-gynlluniau pob gwybodaeth? Mae y cwestiynau yma ydynt wedi rhanu athronwyr o'r amser boreuaf hyd yn awr, tu allan i feddwl Crist. Beth yw safon moesoldeb? Ydyw ef ddim yn dadleu pa egwyddor sydd yn gorwedd o dan eu syniadau am y ddeddf foesol. Mae ef yn siarad am burdeb, addfwynder, amynedd, maddeuant, cariad, parch ac ymddiried yn Nuw, ufudd-dod a chariad at Dduw, ac am fywyd tuhwnt i'r bywyd hwn. Ond nid ydym yn cael fod y syniadau yma wedi eu corffoli mewn cyfundrefn o feddwl. Yr ydym yn eu cael mewn bywyd,—bywyd o gyfoeth ysprydol, yn enaid Crist, yn llawn ac yn anyspyddadwy; yn cael eu trosglwyddo oddiwrtho ef i galonau'r apostolion a'r dysgyblion, yn llifo oddiwrthynt hwy mewn ffrwd ddidor o brofiad Cristionogol i lawr i'r amser presenol. Nid yw egwyddor fawr Cristionogaeth yn gynnwysedig mewn trefniant eglwysig, nag mewn cyfundrefn o athroniaeth, ond mewn cymmeriad o nerth bywiol a bery byth. Gadawn heibio sylwi ar athrawiaethau neillduol. Ni sylwn yn bresenol ar wyrthiau Crist. Pasiwn heibio y feirniadaeth sydd yn gwneyd y Testament Newydd yn gasgliad o chwedlau, a rheolau moesol wedi eu benthycca. Gosodwn o'r neilldu lawer ag sydd yn ymddangos i ni yn neillduol i Gristionogaeth ac yn llawn gwerth a gwirionedd. A gadael heibio yr holl bethau yma, mae un syniad, un nodwedd, un ffaith perthynol i Gristionogaeth sydd yn anfarwol. Mae yn ffaith o allu a nerth; ac mae ei nerth yn parhau yn dragwyddol newydd. Nid yw oes ar ol oes yn ei gwanhau; nid yw blaen-fynediad y blynyddau yn cymylu ei dysglaerdeb; nid yw ei llais yn methu gyda threigliad y canrifoedd. Mae yn parhau etto i dawelu ystorm ein nwydau, yn peru i'n calonau guro mewn cydymdeimlad, yn ein ceryddu mewn tynerwch, yn ein cynghori mewn doethineb, yn enyn o'r newydd dan bywyd oddifewn i ni, yn cyfranu nerth adnewyddol, yn ein tynu yn uwch uwch o ran ein natur ysprydol, yn gwneyd y dydd yn hyfryd ac yn swynol, a'r nos i lewyrchu â goleuni gobaith anniffoddadwy. Nid yw chwyldroadau cymdeithasol yn siglo ei sylfaen; nid yw gwareiddiad sydd yn dinystrio cymmaint yn difa ei nerth. Tra mae gallu gorseddfeinciau a

llywodraethau yn diflanu fel mae oes yn canlyn oes, mae y gallu hwn yn dyfnhau ac yn eangu gyda threigliad y blynyddau. Fel mae yr hiliogaeth yn myned ar ei gyrfa o gynnydd, mae enaid byw Cristionogaeth yn sefyll allan yn eglurach yn ngwyneb y ffurfafen, gan gynnyrchu dylanwad uwch, purach, ac eangach. Mae trefniadau eglwysig yn methu; cyfundrefnau o athroniaeth yn diflanu, i fodoli yn unig mewn hanes, ond mae y goleuni hwn yn llewyrchu fwy-fwy hyd ganol dydd. A pha beth ydyw? Iesu y Crist. Mae y nerth yn dyfod oddiwrth fywyd. A ydyw dyn gyda newyn a sychedd am gyfiawnder, yn gofyn cael ei borthi â chynnysgaeth o osodiadau, ac â chyfundrefnau o feddwl? Pan mae yn ymofyn gwybod beth yw yr athroniaeth Utilitaraidd, fyddwch chwi ddim yn dweyd, "Edrychwch ar fywyd Bentham neu Stuart Mill," ond byddwch yn ei gyfarwyddo i ddarllen llyfrau Bentham neu Stuart Mill. Pan mae yn gofyn, beth yw Rheswm, beth yw yr Ewyllys, beth yw Rhyddid dynol, nid ydych byth yn meddwl am ateb, "Edrychwch ar esiampl Kant, ar ymddygiad Jonathan Edwards, ar fywyd Butler," ond yr ydych yn ateb, "Darllenwch lyfrau Kant, Edwards a Butler;" ond pan mae yr enaid wedi ei lanw a'r dymuniadau santeiddiaf, a'r hiraeth dyfnaf, pan mae yn dyheu am wirionedd, yn crio am gariad a goleuni, yn gweddio ar ran y colledig a'r digymhorth, pa le mae yn cael attebiad sydd yn cyfranu ysprydoliaeth a thangnefedd? Ai mewn rhes o ddamcaniaethau neu mewn cyfundrefn o wybodaeth? Na, yn hytrach mewn dyn gwirioneddol, mawreddog a dwyfol, yn mhrydferthwch santeiddrwydd, tynerwch, nerth, ac addfwynder Crist. Cymerwch hi y modd y mynoch, nodwedd Cristionogaeth nad aiff byth i golli, ond a gynnydda yn ddysglaeriach oes ar ol oes yw y bywyd o gariad a gwirionedd, trugaredd a phurdeb, ufudd-dod a hunan-aberth a arweiniwyd gan Grist. Nid yw rhes o osodiadau yn tynu un cydymdeimlad. Oddi amgylch bywyd personol yn unig mae y serchiadau yn ymgasglu. Wna dim yn llai nâ bywyd sylweddol y tro fel ysgogydd bywyd yn y byd. Dim ond cydymdeimlad enaid byw sydd yn llanw y galon â diddanwch. Nid trefniant eglwysig, nid athroniaeth, nid credo, ond bywyd o hunan-aberth a roddodd nerth a gwroldeb i "ardderchog lu y merthyri"; ac o'r holl oruchwyliaethau a ddefnyddir heddyw i beri i ddynion fyw fel mae'n gweddu i blant Duw, nid oes yr un mor effeithiol a hanes bywyd a marwolaeth Iesu o Nazareth.

Bob mis yr ydym yn darllen mewn rhyw gyhoeddiad neu gilydd fod Cristionogaeth i farw. Pe byddai yn gyfundrefn byddai yn debyg o farw, ac ni byddai lawer o golled. Pe byddai yn athroniaeth gallasai fyw yn mhlith rhyw ychydig, ond byddai yn grefydd annghymhwys i'r tlawd a'r anwybodus. Pe byddai yn gredo byddai yn sicr o farw, oblegyd mae credoau yn heneiddio fel y mae yr enaid yn eangu. A phe byddai, fel mae y Proffeswr Clifford yn ei chamddarlunio, yn gredo o ofn sydd yn dechreu gyda Duw yn melldithio yr hiliogaeth ar eu dyfodiad i'r byd, ac yn terfynu gyda Duw yn poenydio y rhan fwyaf o honynt mewn uffern dragwyddol, byddai yn sicr o farw, haeddai farw a chael ei chladdu allan o gof dynion; ond os yw Cristionogaeth yn

Yspryd Crist, yna mae ganddi nodwedd sydd yn ei gwahaniaethu oddiwrth bob crefydd arall, ac un hefyd sydd yn sicrhau ei pharhad. Y nodwedd hono yw ei haddasrwydd cyffredinol. Y gwahaniaeth mawr rhwng Cristionogaeth a chrefyddau ereill yw, eu bod hwy ar gyfer cenedloedd a dosparthiadau neillduol; mae hon ar gyfer dynoliaeth. Mae crefyddau mawrion ereill y byd wedi bod, ac yn cael eu cyfyngu i un genedl, neu un pobl. Cristionogaeth a Mahometaniaeth yw yr unig ddwy grefydd sydd wedi myned tros derfynau un genedl; ac nid yw Mahometaniaeth ond ffurf dymhorol a lleol o Gristionogaeth. Yr Iesu yn unig sydd yn wir *gatholig*. Mae efe yn treiddio i mewn i'n dynoliaeth gyffredinol ni. Mae'n cyffwrdd a phob sefyllfa a chyflwr, pob agwedd cymmeriad ac amgylchiad. Mae rhywbeth ynddo sydd yn cyffroi teimlad mewn dyn fel dyn, gan nad i ba genedl bynag mae'n perthyn; rhywbeth sydd yn apelio nid at yr Undodwr neu'r Trindodwr, ond at bawb o honynt; rhywbeth sydd yn ddyfnach nâ chredo, yn fwy bywiol nag athroniaeth, yn eangach nâ sect, yn fwy cynnwysfawr nâ therfynau cenedlaethol. Yn rhywffordd mae'n cymmeryd gafael ar y pethau hyny ydynt yn gorwedd ddyfnaf yn nghalon dyn—y teimladau parhaol a gogoneddus hyny na ellir eu diyspyddu, ac yn y rhai mae y dirgeledigaethau ydynt byth yn newydd yn gwisgo eu hunain. A ellir amheu hyn? Tu fewn i derfynau pa genedl, neu sect, neu eglwys mae y rhai ydynt yn ei anrhydeddu, yn ei garu ac yn ei ganlyn ef yn cael eu cyfyngu? Maent o bob cenedl ac o bob credo. Mae eu neillduolion cenedlaethol yn eu gwahanu; mae eu gwahaniaethau athrawiaethol yn eu cadw oddiwrth eu gilydd; ond o dan bob peth sydd yn tueddu i'w gwahanu mae rhywbeth yn eu huno, yr hwn nid yw yn eiddo un o honynt, ond yn etifeddiaeth gyffredinol i bawb. Yspryd Crist yw yr allwedd sydd yn gymhwys i agor ystafelloedd dirgelaidd a dyrys mewn eneidiau o bob cenedl a phob credo. Trwy ei ddywediadau prydferth, trwy y moeswersi syml a ddysgai, ac yn fwy trwy ei fywyd a'i farwolaeth mae yn cyfarfod ag amgylchiadau amrywiol ein dynoliaeth gyffredinol. Yn nghanol y cyfnewidiadau ac yr â sefydliadau Eglwysig trwyddynt yn awr, mae yr Iesu yn aros yn ffaith ganolog Cristionogaeth. Yn nghanol dadleuon diddiwedd athronwyr am ddirgeledigaethau y bydysawd, mae dynion o hyd yn cael eu hennill i fyfyrio ar y bywyd hwnw, trwy deimlo fod ynddo swyn nas gallant fyth flino arno, a chyflawnder nas gallant byth ei diyspyddu. Yn nghanol dadfeiliad athrawiaethau nad ydynt wedi cael ond yn unig gydsyniad sectau maent yn gweled yn Nghrist Gristionogaeth sydd bob amser mor newydd â gwlith y bore, mor gyffredinol â'r wawr, mor feithrinol i fywyd y byd â phelydrau yr haul; a thra y pery dynolryw ni pheidia dynion i blygu o flaen y Crist hwn, ac i dderbyn oddiwrtho yr ysprydolieath uwchaf a phuraf ac y mae y natur ddynol yn gymhwys i'w dderbyn. Fe fydd Cristionogaeth byw, oblegyd cyferfydd llais Crist ag attebiad yn ngreddfau santeiddiaf ein natur foesol.

O'r "*Unitarian Herald*."

ESGUSODION.

"Ond y mae cymmaint gwahaniaeth barn, a chymmaint o ddadleuon yn nghylch crefydd, fel nad ydym ni yn gofalu teimlo a chymmeryd dyddordeb yn ei chylch hi a'i sefydliadau." Dyma esgus arall y mae llawer yn ei wneyd, ond a all unrhyw beth fod yn fwy afresymol? Dychmygwn fod dynion yn gweithredu oddiar yr egwyddor hon gyda golwg ar faterion ereill, i'r fath gyflwr isel, gwael, a thruenus y buasent yn darostwng eu hunain? Onid yw dynion yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd mewn barn gyda golwg ar orchwylion dynol; ai crefydd yw yr unig beth maent yn dadleu â'u gilydd yn ei chylch? Y mae pob dyn sydd yn gwybod y peth nesaf i ddim yn gwybod mai y gwrthwyneb yw y ffaith. I fod yn gysson â hwy eu hunain, gan hyny, dylai y fath gymmeriadau roddi i fyny braidd bob gorchwyl, ond a ydynt yn gwneuthur felly? Y mae gwahaniaeth barn a dadleuon yn bod yn nghylch pa fodd i wrteithio y tir yn iawn, ond a ydyw dynion, oblegyd hyny, yn rhoddi hyny i fyny yn llwyr? Y mae amrywiaeth barn a dadleuon yn nghylch y modd goreu i gario galwadau bydol allan yn llwyddianus, ond a ydyw dynion, oblegyd hyny, yn cau eu hunain i fyny yn eu masnachdai, yn cadw eu llongau yn segur yn y porthladdoedd, ac yn gomedd masnachu mewn dim? Y mae amrywiaeth barn a dadleuon yn nghylch llaw-feddygiaeth (*surgery*), ond a ydyw dynion, oblegyd hyny, yn penderfynu peidio ymdrechu gosod asgwrn yn ei le wedi iddo fyned allan o'i le, a phan mewn unrhyw glefyd peryglus a ydynt yn gomedd danfon am y meddyg a chymmeryd ei gyfferi? Y mae amrywiaeth barn a dadleuon brwd yn nghylch pynciau gwladol, ond a oes un dyn pwyllog doeth yn rhoddi i fyny astudio gwleidyddiaeth, oblegyd hyny, ac yn gomedd cymmeryd un dyddordeb yn llywodraeth ein gwlad, ei deddfau, a'i deddfroddwyr? Y mae amrywiaeth barn a dadleuon poethion wedi cael eu cario yn mlaen parth pwnc addysg yn y dyddiau sydd newydd fyned heibio, ac hyd yn nod yn y dyddiau presenol mewn rhai manau, etto, a oes un dyn rhesymol mor annoeth a pheidio cymmeryd yr un dyddordeb yn mhwnc addysg, ac yn caniatau i'w blant i dyfu i fyny mewn anwybodaeth? Gwir yw y gellir gorfodi rhieni i ddanfon eu plant i'r ysgol ddyddiol y ddydiau presenol, ond cyn i un gair gael ei siarad parth addysg y werin yn Senedd Prydain Fawr, a oedd dynion doeth yn awyddus i gadw eu plant gartref i dyfu i fyny fel chwyn ar faes cymdeithasol y byd hwn, pan oedd moddion addysg o fewn cyrhaedd iddynt? Felly, gallem siarad, haeru, a gofyn gofynion mewn perthynas i gannoedd o bethau ereill, y rhai nid yw neb yn breuddwydio am eu hesgeuluso ar y tir fod dynion yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd mewn barn, ac yn dadleu yn eu cylch. Yn awr, yr hyn sydd genym i ofyn yw hyn, paham na ddylid bod mor rhesymol, o leiaf, ac mor ddoeth gyda golwg ar bethau crefyddol? Paham y troir gydag oerfelgarwch ac anystyriaeth oddiwrth y pwnc pwysig hwn, ïe, mwyaf pwysig hwn, fel y cyfaddefa pob dyn sydd yn galw ei hunan yn Gristion, yn unig o herwydd nad

yw dysgawdwyr a phroffeswyr crefydd ddim yn cyttuno mewn meddwl a gair â'u gilydd parth pynciau duwinyddol a chrefyddol—parth pynciau mawrion a gwir bwysig y grefydd Gristionogol? Oni ddylai y sawl sydd yn dwyn yn mlaen y fath esgus blygu eu penau, edifarhau am eu cysgadrwydd crefyddol, a bod yn wresog yn yr yspryd yn gwasanaethu yr Arglwydd? Dylent bid sicr, ac os na allant gyttuno â Christionogion mwyaf proffesedig ein gwlad, gallant, a dylent chiwlio a barnu drostynt eu hunain, a bod yn ganlynwyr yr hwn a ddaeth i'r byd fel y caem fywyd, ac y caem ef yn helaethach. Gallant a dylent ddwyn gorchymmyn yr Athraw mawr i ymarferiad, sef, "Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd."

"Ond y mae cymmaint o ansicrwydd mewn crefydd fel nad ydym ni yn teimlo yr un awydd i gymmeryd rhyw ddyddordeb neillduol yn ei hathrawiaethau a'i sefydliadau." Dyma esgus etto y mae llawer o honom wedi ei glywed, ond sicr yw fod y sawl sydd yn ei ddwyn yn mlaen yn ddiffygiol iawn o wybodaeth ac ystyriaeth. Ansicrwydd mewn crefydd! Beth ydym i ddeall wrth hyn? A olygir nad oes gan grefydd gymhorth eglurhad gwyddonol *(mathematical demonstration)*? Ond y mae crefydd yn un o'r pethau hyny, yn ei natur, nad yw yn caniatau y fath brawf. Paham yr ydych yn hawlio yr hyn sydd anmhosibl? Etto beth yw y safon wrth yr hon ydych yn gweithredu a phenderfynu gyda golwg ar faterion ereill? Ai safonau eglurhad gwyddonol? Nage, ond prawf moesol—o dystiolaeth, er enghraifft—y fath yn union ag ydym yn ddwyn i sefydlu gwirionedd Cristionogaeth. A ydych chwi byth yn myned i gyfraith? Ydych, ac yr ydych yn peryglu eich eiddo a'ch bywydau ar ei phenderfyniadau, ond nid oes y fath beth ag eglurhad gwyddonol yn y gyfraith. Y mae ei holl brofion o natur foesol; y fath sydd yn cael eu dwyn i brofi neu i wirio ffeithiau crefydd ddatguddiedig. Felly hefyd mae gyda golwg ar orchwylion cyffredin bywyd; nid yw dynion ddim yn gomedd penderfynu a gweithredu hyd nes caffont eglurhad desgrifiadol mai y dull hwn neu y dull arall o weithredu yw yr un cywir a goreu. Paham y gweithredant mewn modd arall gyda golwg ar grefydd? Ac nid hyn oll. Y mae o fewn cylch gwirionedd i ddweyd fod gan grefydd, yn gyffredinol, a Christionogaeth er ei hymddiffyniad fwy o brofion tebygol o ddeng gwaith nâ'r hyn sydd yn eich cyfiawnhau chwi a lluaws o'ch cyd-ddynion yn y dygiad yn mlaen lawer o gynlluniau masnachol yn nghylch y rhai nid ydych chwi na hwythau yn petruso dim i'w gosod mewn ymarferiad gyda'r ymddiried llwyraf. Ie, a rhagor na hynyna. Cyfeiriwn at y gyfraith etto, a beiddiwn ddweyd, pe chwiliech i mewn i dystiolaethau gweithrediadau cyfreithiol oddiar yr hen amseroedd, ni fuasech yn cael allan yn un achos o bob cant unrhyw beth yn haeddu ei gymharu, gyda golwg ar ei nerth i'r profion ellir eu dwyn yn mlaen mewn amddiffyniad o brif ffeithiau y Testament Newydd. Os felly, y fath annghyssondeb rhyfeddol, heb son dim am ddrygioni y peth sydd mewn siarad am

ansicrwydd crefydd fel rheswm i beri i chwi fod yn ddifater yn nghylch ei hawliau.

"Ond y mae cymmaint o ddirgelwch yn gyssylltiedig â chrefydd, fel nad ydym ni yn cael ein tueddu i deimlo llawer o ddyddordeb ynddi hi, nac yn ei sefydliad." Beth gawn ddweyd am yr esgus hwn? Dirgelwch! A oes unrhyw beth yn bod heb fod dirgelwch yn gyssylltiedig ag ef? Os na ofalwn am ddim ond yr hyn nad oes dim dirgelwch yn gyssylltiedig ag ef ni ofalwn ond am ychydig neu ddim yn wir. Edrychwn lle y mynom yn mhlith rhyfeddodau y greadigaeth, ac yn ngweithrediadau Rhagluniaeth, cawn allan ddirgelwch yn mhob man. Onid ydym ni, gan hyny, i deimlo yr un dyddordeb yn y pethau yma? Ydym bid sicr. Yr ydym yn llygaid-dystion o ddygwyddiadau dyddiol yn nghylch *paham* a *pha fodd* y rhai nid ydym yn gwybod dim. Ond a ydym oblegyd hyny yn ddiystyr o honynt. Nid yw dirgelwch, pa gymmaint bynag yw, yn ein hattal rhag teimlo a gweithredu mewn perthynas i'r cyfryw. *Paham* a *pha fodd* y mae y *magnetic needle* yn cyfeirio at y Pegwn Gogleddol? nid oes neb yn gwybod; ond nid yw y dirgelwch hwn ddim yn peri i ddynion omedd gwneyd a defnyddio y cwmpawd morawl. Pa *fodd* a *phaham* y mae y trydan *(electric fluid)*, megys yn dewis teithio ar hyd yr haiarn yn hytrach nag ar hyd y sidan, nid oes neb yn gwybod; ond nid yw y dirgelwch hwn yn attal dynion rhag ffurfio a gwneyd elw wrth wneyd defnydd o hono. Pa *fodd* a *phaham* y mae mater yn cael ei atdynu at y ddaear, neu i ganolbwynt y ddaear, nid oes neb yn gwybod; ond nid yw y dirgelwch hwn yn attal dynion i wneyd defnydd o fater, na rhag gweithredu yn ol cyfraith dysgyrchiad. Ac felly gallem fyned yn mlaen i ofyn gofyniadau yn ddibendraw. Yn mhob man, ac yn mhob dygwyddiad mewn bywyd, y mae dirgelwch; etto gwelir dynion yn mhob man yn llawn bywyd a gwaith. Paham? O herwydd, er fod dirgeledigaethau yn bod, fod digon o ffeithiau a gwirioneddau adnabyddus i hawlio eu sylw, ac i beri iddynt osod y deall ar waith, ac oblegyd nad yw y rhanau dirgelaidd ond o ychydig neu ddim pwys. Felly gyda golwg ar grefydd.

Dychymmygwn fod llawer mwy o ddirgeledigaethau yn perthyn iddi nag y mae yr amheuwr ei hunan yn ddychymmygu; etto, byddai digon o ffeithiau a gwirioneddau ynddi yn berffaith glir, syml, a dealladwy i ateb pob dyben da, ac heblaw hyny, ni fuasai y rhanau dirgelaidd o bossibl ond o ychydig neu ddim pwys ymarferol. A chaniatau fod yr hyn oll ag mae y gwrthwynebwr penaf wedi haeru yn nghylch dirgeledigaethau mewn crefydd yn wir, etto ni fuasai mwy o ddirgelwch mewn crefydd nag a ganfyddir mewn natur; o ganlyniad, buasai gomedd cymmeryd yr un dyddordeb ynddi o herwydd y dirgeledigaethau sydd yn nghlyn â hi yn beth yr un mor afresymol, o leiaf, a gomedd cymmeryd yr un dyddordeb yn natur o herwydd ei dirgeledigaethau hi.

Ond yr ydym ni yn myned yn mhellach, a dywedwn nad oes, a siarad yn iawn, dim dirgeledigaethau mewn crefydd *ddatguddiedig*, dim un. Gwir yw fod crefydd ddatguddiedig yn traethu ar bynciau *yn nghylch*

y *rhai* y mae llawer sydd ddirgelaidd, h.y., anadnabyddus. Ond sylwn ar y gwahaniaeth,—nad yw yr hyn sydd dirgelaidd yn nghylch y pynciau yma yn gwneyd i fyny *un* rhan o grefydd ddatguddiedig. Nid yw yr hyn sydd wedi ei amlygu unwaith ddim pellach yn anadnabyddus, neu yn ddirgelaidd. Er engrhaifft, gellir gofyn llawer o ofyniadau yn *nghylch* Duw, yn *nghylch* Iesu Grist, yn nghylch y nefoedd, ac yn nghylch uffern, nad yw datguddiad yn eu hateb o gwbl; o ganlyniad, rhaid yw iddynt aros yn ddirgelwch; ond nid yw datguddiad yn proffesu ateb y gofyniadau yma, yr oll y mae yn broffesu dysgu y mae yn wneyd gyda'r eglurdeb mwyaf. Nid oes dim dirgelwch yn y gwir ddatguddiad.

Yr un peth ellir ddweyd yn union am yr holl bynciau y traethir arnynt yn yr Ysgrythyrau. Gellir gofyn llawer o ofyniadau yn nghylch y pynciau hyny na ellir eu hateb, y rhai sydd etto yn amdoedig gan ddirgelwch. Etto i gyd y mae pob ffaith a phob gwirionedd mae datguddiad yn broffesu ei ddysgu, *yn* cael ei ddysgu yn syml, eglur, a dealladwy. Peth dealladwy ac amlwg yw crefydd ddatguddiedig. Peth afresymol iawn, gan hyny, ie, a gwrthun i un dyn sydd yn proffesu y parch lleiaf i grefydd yw dweyd nad yw yn cael ei dueddu i deimlo llawer o ddyddordeb ynddi hi a'i sefydliadau, oblegyd y dirgelwch sydd gyssylltiedig â hi. Bydded i gymmeriadau o'r fath yma i briodoli y cyfryw beth i'r gwir achos, sef i'r darfodedigaeth ysprydol, yr hwn sydd wedi cymmeryd gafael arnynt hwy, neu i'r ffaith nad ydynt wedi deall a theimlo dylanwad crefydd bur a dihalogedig, megys bywydol dân yn enyn fflam cariad Cristionogol yn eu heneidiau, am eu bod yn edrych arni hi a'i sefydliadau fel ar lythyren farw, ac nid yspryd sydd yn bywhau. S. B.

YR AIFFT A CHANAAN.

BETHLEHEM—LLYTHYR XIV.

Oh, ïe, terfynwyd y llythyr o'r blaen yn nghanol penbleth ofnadwy—pobpeth ond hapus—wedi colli'r cwmni, wedi fy ngadael yn unig, dim ond yr hen geffyl gwyn a minau; tywyllwch mawr y tu ol a'r tu blaen. Cofio fod hen gof gan hen geffyl, yn peru glynu wrth obaith, yr hwn oedd cyn hyny yn cyflym ddiflanu. Mae cwn a cheffylau yn teilyngu llawer mwy o ddiolchgarwch nag y maent yn gael. Pa hyd y parhaodd y daith fel yma, nis gwn, na pha hyd y parhaodd y pryder, ond gwn ychydig am faint y llawenydd, a maint ysgafnder y galon (yr oeddynt yn fwy nag y gall pin ddesgrifio, ac yn fwy nag y gall pwyntil ddarlunio), pan ddaethom i flaen y cwm, ac y gwelsom y goleuni o'r pabellau yn dyfod trwy'r tywyllwch. Yn hir wedi hyn daeth yr olaf o'r parti i ben y daith, ac yr oedd yn llawenydd mawr genym o'r diwedd glywed y gloch yn galw i giniaw.

Mawrth 2.—Cychwynasom yn foreu heddyw ar ein taith tua Bethlehem, gan gymmeryd llethr y mynydd uwchlaw "Gerddi Solomon." Mewn amryw fanau gwelsom *aqueduct* hynod, trwy yr hwn y cludid y dwfr i waered i Bethlehem, os nid i Jerusalem, a thua chanol dydd dacthom i'r ddinas a dderbyniodd ymweliad gynt, yn ol yr hanes, gan yr angylion a doethion y dwyrain. Ar y gwastaedd draw yr oedd y bugeiliaid pan glywsant y canu, "Gogoniant i Dduw yn y goruchaf; ar y ddaear, tangnefedd; ac i ddynion, ewyllys da."

Saif Bethlehem ar ochr bryn lled uchel, ac mae'i ymddangosiad yn darawiadol iawn. Mae'r wlad oddiamgylch yn hardd ac yn ffrwythlawn. Mae milltiroedd o berllanau, y rhai ydynt dan gwrtaith dda, yn gwneuthur yr olygfa yn anarferol hyfryd. Mae'r trigolion gan mwyaf yn Gristnogion, ac mae'r rhyw deg yn enwog am eu tegwch. Y prif adeiladau ydynt Eglwys y Genedigaeth ac Eglwys Fair. Rhenir y dref yn dair rhan, y rhai a breswylir gan yr Armeniaid, y Lladinwyr, a'r Groegwyr, hyny yw, gan bleidiau Cristnogol yn dwyn yr enwau hyny. Yma mae gweddillion dyddorol iawn, a lleoedd sanctaidd, dodrefn ardderchog, ac allorau gogoneddus, &c. Yma mae beddau Eusebius a Jerome, a myfyrgell Jerome, lle y treuliodd flynyddau yn cyfieithu y Beibl. Mae Eglwys St. Catherine yn gyfoethog iawn o addurniadau; Eglwys y Genedigaeth (*Church of the Nativity*), yn cael ei goleuo â deg ar hugain o lampau arian, y rhai ni chaniateir fyth i fyned yn niffodd. Yr wyf wedi cyfeirio o'r blaen at barodrwydd a chymmwynasgarwch y *guides* yn y dwyrain, dangosant i chwi y peth a fynoch—tebygol neu anhebygol, possibl neu anmhossibl—dangosant hyd y fodfedd. Yn Eglwys y *Nativity* y mae llawer iawn o bethau yn cael eu dangos. Mae'r Eglwys ei hunan yn werth ei gweled, ond yn fwy fyth felly o herwydd yr hanesion sydd yn dal cyssylltiad â hi. Y mae'r llawr yn *inlaid* â marmor gwerthfawr. Dynodir man genedigaeth—yr *exact birth-place*—yr Iachawdwr, gan slab o farmor gwyn, wedi ei amgylchynu â Jasper; yn nghanol yr hwn y mae haul arian, a'r geiriau canlynol yn argraffedig arno: "*Hic de Virgine Maria Jesus Christus Natus Est*," h.y., "Yma, o'r forwyn Fair, Iesu Grist a anwyd." Uwchlaw hwn, mae bwrdd o farmor, gydag addurniadau arferol allor eglwys Babaidd. Yma mae'r pererinion yn dyfod ac yn ymostwng, yn cusanu y seren, &c. Tuag ugain troedfedd oddiwrth y seren, y mae *block* o farmor gwyn, wedi ei geuo allan i ffurf briodol, hwn yw y preseb lle y crydiwyd y baban Iesu gyntaf. Gyferbyn y mae allor wedi ei chyssegru i'r Magiaid, neu y doethion a ddaethant o'r dwyrain. Mae trigolion Bethlehem yn rhai diwyd a gofalus, a chadwant eu tai a'u heolydd yn lanach nag yw y rhan fwyaf o heolydd yn Ngwlad Canaan. Gwerthir *beads* a *brooches* cywreinion wedi eu cerfio o goed, *Mother-of-pearl*, &c., am brisoedd hynod o resymol yma. Mae'r cyfeiriadau Ysgrythyrol at Bethlehem yn lluosog ac yn ddyddorol iawn: 2 Sam. v. 22—25; Gen. xxxv. 18—20; Gen. xlviii. 7; Mat. ii. 18; Jer. xxxi. 15; Mat. ii. 5, 6; Luc ii. 8—14; 2 Sam. xxiii. 15, 16; 1 Sam. xvii. 34; 1 Sam. xvii. 49; Ruth ii, iii; Mat. xii. 1, 2; Marc ii. 23; Luc vi. 1, 2. Claddedigaeth Rahel, cartref Boaz, cartref Ruth, lle gened-

igaeth Dafydd; meddylier am Joseph a Mair, am faesydd a gwastadeddau y bugeiliaid, am y newyddion da, ac am anthemau sanctaidd yr angylion, &c.; a pha le geir yn fwy teilwng o sylw, ac yn fwy tebyg o gyffroi y teimlad. Mae'r enw yn ddarluniadol—Bethlehem, yn awr Beit Lahen, hyny yw, Ty'r Bara, lle dywedir i'r Manna Nefol ddyfod i lawr, ein Iachawdwr, y gwir fara o'r Nef. Rhifa'r boblogaeth tua 3,000. Mae un awdwr yn ystyried fod y geiriau canlynol o eiddo y Dean of Gloucester, yn ychwanegu at ddyddordeb hanes y lle hwn: "Y Creawdwr a ymddangosodd yn greadur, yr Hollalluog yn faban gwan, y Tragwyddol yn blentyn amser. Cyfyngwyd yr Anfeidrol i derfynau y cnawd tlawd hwn. Onid hwn yw rhyfeddod y rhyfeddodau, yn yr hwn yr ymddangosodd y gras yr hwn nid yw yn adwaen terfynau?"

Gerllaw yma mae'r ffynon o'r hon y dymunai Dafydd am ddwfr: (2 Sam. xxiii. 15.) Mae'r lle yn enwog hyd heddyw am ragoriaeth ei ddwfr. Darfu i rai o honom dalu ymweliad â'r ffynon hon. Wedi gorphen ein hymweliadau â'r gwahanol fanau, yr oedd yn bryd meddwl am giniaw, neu yn hytrach am *lunch*; yr oeddym yn cadw *quality hours*, ac yn ciniawa yn yr hwyr. Ein bwriad oedd bwyda ychydig ar "Faes y Bugeiliaid," ond trodd yn wlaw mawr, a bu yn dda genym ddychwelyd i'r Eglwys a bwyda yno. Cymmerai y "brodyr," pobl dda yr Eglwys ddyddordeb mawr ynom, a dygasant *supply* o win i'r rhai a'i dewisent, a lemonade a choffee i'r rhai nad oeddynt yn yfed gwin. Ar y terfyn canwyd emyn yn dechreu,

While shepherds watched their flocks by night,

a chafwyd *Doxology* a *Benediction* gan un o'r gweinidogion yn y parti. Dadganai'r "brodyr" foddlonrwydd mawr, a rhoddwyd tipyn o *buckshish* iddynt wrth ymadael.

Y gwlaw yn disgyn o ddifrif arnom pan yn cefnu ar Bethlehem. Ein tynfa yn bresenol tuag at Fonachty Mar Seba. Myned trwy le anial iawn, dim blewyn glas i'w weled yn un man, gweled llawer o *snails of the desert*, malwod yr anialwch. Dim dafn o ddwfr yn un man. Tynu at ddyffryn Cedron, dyfod at lwybr serth, cul iawn, tua dwy droedfedd neu lai nâ hyny o led. Peryglus iawn myned i waered ar hyd y llwybr hwn, y perygl yn fwy i fyned felly ar gefnau'r ceffylau. Gwely'r Cedron yn ymddangos rhai cannoedd o droedfeddi oddi tanom, y gwely yn sych. Gweled yma a thraw ysgerbydau camelod, ceffylau, &c., wrth bob tebyg wedi syrthio dros y dibyn. *One abreast* yw hi yn awr, ac yn araf araf. Rhai o'r parti yn achwyn ac yn gwaeddi *move on*! heb feddwl fawr pe byddai i geffyl un o honom golli troed y byddai yn fuan gyda'r camelod ar waelod y cwm. *Push on, push on*, meddent fel ynfydion. Yr oedd un *lady* dros 60 oed yn awyddus iawn i fyned yn mlaen, ac yn gwneuthur ei goreu i wthio yn mlaen. Ni lwyddodd fodd bynag i wthio neb dros y dibyn, ac ni aeth hithau dros y dibyn ei hunan. Feallai nad oedd ganddi un bwriad i wneyd un o'r ddau. Monachty rhyfedd yw Monachty Mar Seba. Dywed Thompson mae y rhyfeddaf a welodd ef erioed oedd. Bu farw Saint Mar Seba

tua'r flwyddyn 532 yn 94 oed, a dangosir ei fedd ef yma ac eiddo John o Damascus. Mae'r eglwys oddi fewn yn ddysglaer gan aur ac arian. Mae yma amryw gapelau, llawer iawn o *paintings*. Peiramid mawr wedi ei wneuthur o bedair mil ar ddeg o benglogau merthyron, muriau mawrion a chedyrn, mynachod *civil*, y rhai ydynt yn cynnyg llawer o bethau megys ffyn, &c., ar werth. Dim caniatad, wrth gwrs, i'r *ladies* i ddyfod y tu fewn i furiau y mynachty. Gerllaw, yn ymgodi uwchlaw y cwm, y mae clogwyni aruthr, llawn ogofau, yn awr yn gartref dyllhuanod ac ystlymod, lle gynt yr oedd y mynachod yn cartrefu—y rhai hyn yn gymmaint gwrthddrychau ein syndod a'n hedmygedd braidd a dim yn nghymmydogaeth neillduedd hynod yr hen Sant Seba. Ein pabellau wedi eu gosod i fyny mewn dyffryn dwfn, ar y tywod, a gerllaw i bentref o babellau Bedawiniaid duon. Y Bedawiniaid ddim yn rhai ydym yn hoffi yn fawr fel cymmydogion—ddim yn leicio eu golwg. Fodd bynag, nid oes achos ofni, nid ymddangosant fel yn bwriadu un niwed i ni, a phe byddant, nis gallant, yr ydym dan amddiffyniad; mae dau sheik, a phedwar ar ddeg o filwyr gyda ni, y rhai ydynt wedi eu hanfon i waered o Jerusalem i ofalu am danom, ac i'n hamddiffyn ar wastadeddau'r Iorddonen, wrth Jericho, ac ar y ffordd i fyny i Jerusalem.

Mawrth 3.—Brecwast am chwech y bore. Cryn lawer o waith o'n blaen heddyw etto—at y Mor Marw, yr Iorddonen, ac oddi yno i Jericho. Mae llawer o son gyda ni yn Nghymru am fyned i Jericho, yr ydym ni yn myned i Jericho heddyw.

YR YRFA GRISTIONOGOL.

PARHAD O TUD. 101.

III. "Gan roi heibio bob pwys, a'r pechod sydd barod i'n hamgylchu," medd'yr awdwr. Y mae yr ymadrodd hwn etto yn cyfeirio at arferion y Campau Olympaidd. Yr oedd y rhedegwyr yn taflu ymaith eu holl addurniadau corfforol a phob pwys, yn nghyd â'u gwisgoedd bron i gyd rhag peru rhwystr. Felly y dylai dyn wneuthur pan yn rhedeg ei yrfa Gristionogol. Dylai adael o'r neilldu bob pechod—bob arferiad drwg—rhag i'w gynnydd gael ei rwystro.

(1.) Y "pwys" mwyaf cyffredinol sydd yn rhwystro cynnydd dyn mewn moesoldeb yw difaterwch. Y mae dyn yn barod i gymharu ei gymmeriad ei hun â chymmeriadau ei gymmydogion, ac os gwel fod digon yn debyg iddo yn eu bucheddau, nid yw am gyrhaedd un sefyllfa uwch—y mae yn aros yn yr un man yn ol ei feddwl ei hun—nid yw yn cofio mai gyrfa yw bywyd y Cristion. Nid yn unig y mae difaterwch yn pwyso ar ddyn fel ag i atal ei gynnydd ond y mae yn ei lethu yn is, is, yn barhaus. Cawn enghreifftiau o hyn yn natur o'n hamgylch ac yn neddfau y meddwl. Os na fydd y dwfr yn rhedeg, bydd wedi llygru. Os na fydd y pren yn tyfu yn nhymhor tyfiant

bydd wedi crino. Os na fydd dyn yn dysgu bydd yn sicr o fod yn annghofio. Yr un modd gyda phethau crefyddol. Os bydd dyn yn ddifater, hyny yw, os na fydd ymdrech ynddo i fyned yn mlaen mewn rhinwedd a daioni bydd yn sicr o fod yn myned yn ol. Y mae y corff yn marw oni roddir digon o ymarferiad iddo. Yr un modd yr enaid—os na chaiff ei ymarfer a'i borthi ag ymborth ysprydol y mae megys yn farw. Fel na all y fflam fyw oni bydd a'i thynfa i fyny, felly, nis gall yr enaid fyw yn wirioneddol felly oni fydd ei dynfa gysson i fyny at yr Haul Mawr Ysprydol, yr Hwn a'i cynneuodd ar y dechreu. Gan hyny, am fod difaterwch yn rhwystr hollol rhag myned yn mlaen yn ein gyrfa Gristionogol, taflwn y "pwys hwn heibio."

(2.) Y "pwys" ag sydd yn rhwystr cynnydd llawer ydyw arferion drwg. Yn y Campau Olympaidd yr oedd y rhedegwyr yn ofalus iawn i ddiwreiddio pob arferiad drwg yn nhafliad y droed neu y fraich rhag creu rhwystr iddynt yn yr yrfa. Yr un modd, dylai y Cristion fod yn ofalus iawn i ymwadu à phob arferiad drwg. Nid yw cymmeriad dyn ond llu o arferion wedi eu plethu yn nghyd, ac y mae dedwyddwch dyn yn ymddibynu ar natur ei arferion. Y mae arferion drwg yn niweidiol i'r corff. Y mae y dyn fyddo yn esgeuluso cyd-ffurfio â'r arferion sydd yn cadw iechyd yn tori i lawr ar hanner ei yrfa ddacarol. Tebyg hefyd ydyw gyda dyn yn yr ystyr ysprydol. Pan y mae yn tori deddfau cyfiawnder a chariad, y mae yn tori i lawr ar ei yrfa Gristionogol. Y mae y corff a'r meddwl wedi cael eu bwriadu ar gyfer gweini dedwyddwch i ni yn gytun. Dyledswydd dyn ydyw cadw ei holl alluoedd mewn perffaith reoleidd-dra a chydweithrediad yn y fath fodd fel y byddo i'w reswm eistedd fel brenin ar orsedd ei ymddygiadau. Y mae yn ofynol i ddyn hefyd oleuo ei reswm, oblegyd efe yw y goleuni sydd i ddangos troion ein gyrfa i ni; "ac os bydd y goleuni sydd ynom yn dywyllwch, pa faint fydd y tywyllwch?" Gwelwn oddiwrth hyn ei bod o bwys i ni ochelyd rhag arferion drwg.

(3.) Wrth y "pechod parod" y sonir am dano, y meddylir y temtasiynau y mae dyn yn gyfarfod yn y byd. Yr oedd y dillad a wisgid gan y rhai a redent yn y Campau Olympaidd yn amser yr awdwr yn fwy o rwystr iddynt hwy nag a fyddai ein gwisgoedd i ni, oblegyd math o glogynau llaesion oeddynt, y rhai a fyddent yn sicr o "amgylchu" y rhedegwyr fel ag i wneyd iddynt syrthio. Fel ag yr oedd gan bob un o'r rhedegwyr yma ei wisg i'w rwystro, y mae gan bob dyn ei demtasiynau neillduol ei hun. Nid yr un peth sydd yn demtasiwn i bawb. Dylai pob dyn astudio beth ydyw ei demtasiwn yr hon sydd fwyaf parod iddo, a'i thaflu o'r neilldu fel ag i'w alluogi i fyned yn mlaen yn ei yrfa Gristionogol. Y ffordd oreu i ddyn i adael neu roi heibio ei brofedigaeth yw *peidio myned i'w gafael.* Meddyliwch am ddyn yr hwn sydd yn sicr o bechu bob tro y mae yn myned i ryw le neillduol. Dyna y ffordd oreu i'r dyn hwnw ochelyd y pechod parod hwn yw peidio myned i'r lle hwnw o gwbl. Os bydd un gwydryn o gwrw yn demtasiwn i ddyn i yfed nes *meddwi,* y peth

goreu i'r dyn hwnw fyddai peidio yfed *un* gwydryn, yna byddai iddo roi heibio ei bechod parod. Gellid dyfod yn mlaen ag engreifftiau di-rif ar y pen hwn, ond y mae hyn yn ddigon i ddangos ei bod yn ddichonadwy i ddyn daflu ymaith ei demtasiwn neillduol ei hun. Gwelwn fod gan bob Cristion ei brofedigaeth fel ag yr oedd gan bob rhedegwr ei wisg, a'i ddyledswydd yw ei rhoi heibio fel ag i redeg ei yrfa yn llwyddiannus.

"Gad y cibau a'r gor-wagedd,
Gad y byd a'i ffalsedd ffol,
Cofia lawndid ac amgeledd
Tŷ dy Dad,—a dere 'nol."

IV. Cawn yn y testyn fod eiseu amynedd i redeg yr yrfa: "Drwy amynedd, &c."

(1.) Yr oedd amynedd yn angenrheidiol yn y Rhedegfa Olympaidd. Yn fynych ceir gweled ambell un yn dechreu yn frysiog, ond yn rhoddi i fyny i redeg yn dra buan. Nid oedd hwn yn derbyn y wobr. Y rhedegwr ag oedd fwyaf tebyg o lwyddo oedd yr hwn a ddechreuai yn dawel, a gynnyddai fel y byddai yn myned yn mlaen—yr hwn a gadwai nerth hyd ddiwedd yr ymdrech. Yn fynych ceir gweled person yn dechreu gyrfa grefyddol yn frysiog, ond yn tori i lawr ar ganol yr ymdrech o herwydd nad oedd yn gweled digon o lwyddiant yn canlyn. Nid yw y dyn hwn yn deilwng o wobr rhinwedd, mwy nâ'r hwn a wnai dori i lawr ar y Rhedegfa Olympaidd. Y dyn ag sydd yn derbyn dedwyddwch yw yr hwn sydd yn dechreu yn dawel, ond yn myned yn y blaen o berffeithrwydd i berffeithrwydd "at fesur oedran cyflawnder Crist."

(2.) Y mae yn rhaid fod gan ddyn amynedd i redeg yr yrfa ei *hun* hefyd, cyn y bydd yn deilwng o wobr yr un modd ag y gwnai y gorchestwyr Olympaidd. Dywed yr enwadau poblogaidd fod Crist wedi ei rhedeg yn ein lle. Pe bai hyn yn wir byddai cynghor yr awdwr yn ddi-ystyr ac yn ddi-effaith; oblegyd, pa eisiau fyddai iddo ddweyd wrthym am redeg yr yrfa os oedd arall wedi ei rhedeg yn ein lle? Y mae ein profiad ein hun, yn nghyd â chanol swn yr ysgrythau yn ein dysgu y telir i bob un yn ol ei weithredoedd,—"Y bydd cyfiawnder y cyfiawn arno ef, a drygioni y drygionus arno yntau,"—"Y bydd i bob un ddwyn ei faich ei hun."

(3.) Yr oedd y gorchestwyr Olympaidd yn cael tir llyfn i redeg arno, ond nid yw taith y Cristion yn ymddangos felly bob amser; y mae llawer "Craig Rhwystr" ar ei ffordd ef, gan hyny y mae mwy o amynedd yn angenrheidiol nâ phe bai y ffordd yn wastad. Rhedegfa i ben mynydd santeiddrwydd ydyw, gan hyny y mae yn gofyn ymdrech a gofal rhag syrthio.

(4.) Yn y Campau Olympaidd ni wnai y tro i redeg y rhan *olaf* o'r ffordd yn unig, yr oedd yn rhaid i'r rhedegwr i redeg yr oll o'r ffordd cyn ennill y wobr. Ceir clywed llawer o ddynion yn ein dyddiau ni yn dweyd y gallant gael y wobr uwchaf a all nefoedd roddi iddynt, ond cael rhyw ychydig bach o amser i *edifarhau* am eu camweddau cyn *marw*. Y mae llawer yn arwain bywydau afradus dan ddylanwad

y cyfeiliornad hwn, gan dwyllo eu hunain á'r meddylddrych y bydd dweyd "*eu bod wedi edifarhau peidio rhedeg yr yrfa*" yn ddigon i'w gwneuthur yn Seintiau gwynaf. Y mae y dyn sydd yn ymddwyn yn y modd hwn yn ymddangos i'm golwg i mor ffol ag un o'r rhedegwyr diog yr hwn a ai at y Barnwyr yn y Campau Olympaidd i hawlio gwobr ganddynt ar y tir ei fod wedi edifarhau peidio rhedeg. Rhaid i ddyn gymmeryd amynedd i redeg "holl droion yr yrfa." Nid rhyw beth allanol yw dedwyddwch Cristionogol, ond yr iechyd ag y mae yr enaid yn fwynhau ydyw wrth ymborthi ar ymborth priodol, yr hwn yw cariad at ddyn fel brawd, a chariad at Dduw fel Tad. Y mae yr yrfa Gristionogol yn deilwng o'n hamynedd trylwyraf, oblegyd y mae yn ein harwain i ddedwyddwch mewn dau fyd.—Yr ydym i "gael can cymmaint yn y byd a'r bywyd hwn, ac yn y diwedd fywyd tragywyddol," gan hyny, y mae gwir grefydd yn gynnwysedig mewn gwneuthur y defnydd goreu o'r byd, fel ag i gael y gradd uwchaf o ddedwyddwch ein hunain; i beri y swm mwyaf o ddedwyddwch i ereill; ac fel canlyniad i'r pethau hyn, ac fel coron ar y cyfan, i ddadblygu y gradd uwchaf o ddelw Duw yn ein heneidiau. Byddai o werth i ni gadw hyn o flaen ein meddyliau yn wastadol. Cofiwn fod yn rhaid i ni redeg yr yrfa bob dydd drwy y siop a'r farchnad, ïe, ein holl ddyledswyddau. Yn ngwyneb hyn y mae rhywrai yn barod i ddweyd fod yn anhawdd cael amynedd i ddal am amser mor faith. Cofia di, gyfaill, os ydwyt am gael rhinwedd fod yn rhaid i ti gael amser i'w hennill—os ydwyt am gael ymborth melus i borthi dy ddedwyddwch, fod yn rhaid i'th rinwedd i gael amser i addfedu, oblegyd y mae y ffrwythau hyfrytaf yn cymmeryd amser hir cyn cyrhaedd perffeithrwydd addfedrwydd. Cofia fod yr yrfa Gristionogol yn arwain i'r bywyd. Y mae yn gwneuthur Iechyd i ddysgleirio ar y rudd, yn gwneuthur y gan yn felusach, yn gwneuthur y wen yn hawddgarach, mewn gair, hi sydd yn perffeithio ein natur.

(5.) Ni ddylem ymegnio i redeg ein gyrfa o dan effaith y meddylddrych poblogaidd fod uffern yn gwreichioni wrth ein sawdl, oblegyd ni roddai gyrfa ofnus felly ddim dedwyddwch i ni; ond dylem ymegnio yn hytrach dan ddylanwad yr ystyriaeth mai gwanwyn ein bodolaeth yw y bywyd presenol—y tymhor i hau hadau dedwyddwch parhaol, y rhai a gant dyfu etto mewn hinsawdd mwy ffafriol i'w cynnydd nâ'r eiddo y byd presenol, ac mewn cymmundeb agosach â Haul Mawr y byd moesol. Nid rhedegfa ofnus ydyw rhedegfa y Cristion, ond taith plentyn adref i dŷ ei Dad ydyw. Pan fyddo dyn yn myned adref wedi bod yn mhell o dir ei wlad, y mae fynychaf bob amser yn dewis y ffordd oddi ar yr hon y caiff y golygfeydd goreu.

> "O dyma olygfa lwys
> Rhyw hudol ail Baradwys"

sydd yn amgylchynu ffordd y Cristion.

> "Ffordd gymhwys yw, blodeuog iawn,
> Ffordd heddwch a llawenydd llawn;
> Llaw nefol yn ei thrwsio'n frith
> A gwir gysuron rif y gwlith."

Ar derfyn ei daith y mae y dyn da yn gallu edrych ar ei oes fel dysglaer gadwen arian yn barod i'w godi i fyny i'w gartref tragywyddol at ei Dad.

V. Y mae yr awdwr yn ein hannog "i edrych ar Iesu Pentywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni." Yr oedd gan y Rhedegwyr Olympaidd ryw nod o'u blaen i gyrhaedd ato; ac yr oeddynt yn wastad yn cadw eu golwg ar hwn pan yn ymdrechu. Y mae gan y Cristion hefyd ei nod o'i flaen, yr hwn yw Iesu Grist.

Y mae dyn yn fod ag sydd yn derbyn ei ddyledswydd drwy brofiad ac efelychiad, gan hyny, y mae yn angenrheidiol cael esiampl deilwng i'w hefelychu, fel ag i fod yn sail safadwy i wir ddedwyddwch. Pan yn rhedeg ein gyrfa, cadwn ein golwg ar esiampl ddaionus yr Iesu. Byddwn benderfynol i gerdded canolffordd daioni cyffredinol, fel ag y gallwn ddweyd ein bod wedi gorchfygu y byd. Pan fyddo nos cystudd yn taenu ei hadenydd duon drosom, a phan fyddom yn yfed cwpan chwerw adfyd, bydded i ni ddywedyd gyda'r Iesu, "Nid ein hewyllys ni ond dy ewyllys Di o Dad a wneler."

Edrychwn hefyd ar yr Iesu fel yr hwn sydd wedi dwyn "bywyd ac anllygredigaeth i'r goleuni." Bydded i hyn i'n dal i fyny pan yn gosod tad neu fam, brawd neu chwaer, neu ryw berthynas agos arall neu gyfaill mynwesol, yn y bedd. Yr wyf wedi bod yn ymdrechu cymharu y ddwy yrfa â'u gilydd, sef yr Yrfa Gristionogol a'r Yrfa Olympaidd. Y mae yn amlwg fod ymdrech yn angenrheidiol yn y ddwy; ond y mae yr Yrfa Gristionogol yn anfeidrol uwch na'r llall. Y wobr a dderbyniai y Rhedegwr Olympaidd fel y prawf o ddyrchafiad oedd cael gwisgo coron bleth o flodau ar ei ben, yr hon a wywai yn dra buan. Ond caiff y Cristion "goron yr hon ni wywa." Ni fydd gwobr y Cristion yn ddim llai na chael clywed miwsig hyfryd diniweidrwydd, a daioni yn telori yn ei gydwybod heddychol—ie, ni fydd ei wobr yn ddim llai nag undeb agos â'r Ysbryd pur, yr Hwn sydd yn gwisgo y greadigaeth a phrydferthwch, ac yn llanw cwpaneidiau ei holl greaduriaid â daioni. "Oblegyd hyny ninau hefyd gan fod cymmaint cwmmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch," &c., &c.

Coleg Caerfyrddin. E. Ceredig Jones.

Y PWLPUD UNDODAIDD—BRASLUNIAU.

(Parhad o rifyn Mawrth, 1874.)

IV. *Mab y Weddw o Nain.*—Luc vii. 11—18.

I. *Sylwadau Rhagarweiniol.*

1. Harddwch a symlrwydd yn yr adroddiadau ysgrythyrol, ac yn neillduol yn y rhai a berthynant i fywyd a gweithredoedd Crist.

2. Yn adroddiad cyffrous y testyn, nid yw yr efengylwr yn defnyddio dim un addurn, nac yn gwneyd dim un ymdrech i weithio ar ein teimladau.

II. *Sylwadau Amgylchiadol.*

1. Amser a lle y cyflawnwyd y wyrth.
2. Y mae angladd bob amser yn olygfa gyffrous.
3. Yr un fwyaf ei galar ar yr achlysur oedd y *weddw.*
4. Hyfforddir ni fod mab y weddw yn *ddyn ieuanc.*
5. Y syndod a'r arswyd ddaeth ar feddyliau y bobl.

III. *Sylwadau addysgiadol.*

1. Cawn yma esiampl neillduol o gydymdeimlad ein Harglwydd â rhai mewn galar.

2. Ni ddylem roddi ffordd i alar annghymmedrol am ein cyfeillion ymadawedig.

3. Adgoffeir yma i'r ieuainc eu bod yn agored i farwolaeth.

4. Yr effaith a gafodd y wyrth ar feddyliau y rhai a'i gwelsant, a'u teimladau am Grist.

5. Rhydd y wyrth yma hyder i ni yn addewid ein Iachawdwr, y bydd iddo ef ddyfod etto, yn niwedd y byd, i gyfodi y meirw, a barnu dynolryw mewn cyfiawnder. EVAN LEWIS.

V. *Y Dyn dall o'i enedigaeth.*—Ioan ix. 1—39.

Rhagymadrodd.—Nid ydym ni ddim bob amser i olygu cystudd fel cospedigaeth Duw am bechod.—Cystudd yn fynych yn disgyn drymaf ar y duwiol a'r rhinweddol yn mysg dynion. Yr hwn mae'r Arglwydd yn ei garu, mae'n ei geryddu. Yn yr hanes gwelwn

I. Dallineb y cardotyn wedi ei amcanu er gogoniant Duw, ac fel y byddai i drugaredd a gallu Duw i gael eu hamlygu yn ei welliant.

1. Nid oherwydd un bai o'i eiddo ei hun yr oedd yn dyoddef. Yr oedd yn ddall o'i enedigaeth.

2. Nid oherwydd pechod ereill.

II. Yr angenrheidrwydd o ddiwydrwydd a ffyddlondeb yn ngwaith dyledswydd.—"Mae'r nos yn dyfod, &c."

III. Mae genym siampl danbaid o allu rhagfarn.—Mae tuedd rhagfarn i grebachu y meddwl, i galedu'r galon, i gadw yn ol gynnydd y gwirionedd, ac i derfysgu tawelwch a chysur cymdeithas.

IV. Nid yw y rhai a ddyoddefant oherwydd cydwybod a dyledswydd, ddim yn cael eu hannghofio a'u gadael yn eu treialon.

[Bu farw y Parch. Evan Lewis, gweinidog Blaengwrach, Mehefin 25ain, 1851, yn 64 mlwydd oed.]

SWN, GWRES, LLIW.

Dywedir am *height, heat,* ac *electricity,* eu bod yn *imponderable agents.* Ellir dim eu pwyso fel tê neu siwgr. Mae felly rhyw gyssylltiad rhyngddynt. Beth ydynt sydd gwestiwn nad yw feallai yn hawdd ei ateb. Gofyned y darllenydd iddo ei hunan, beth ydyw gwres? A all efe ateb? Mae llawer o bethau y gwyddom yn rhyw ystyr beth ydynt, ond erbyn yr elom i eistedd i lawr, a chymmeryd yr ysgrifell mewn llaw i ysgrifenu ateb, ni wyddom ni ddim sut mae dechreu. Felly mewn perthynas i'r tri gair sydd yn ffurfio penawd yr erthygl hon, nid yw yn hawdd ateb y cwestiwn beth ydynt, ac nid yw yn fy mryd i draethu yn helaeth ar y mater nac ychwaith yn ddwfn. Ni feiddiaf fyned i mewn i'r pwnc, ond ceisiaf fyned ychydig o amgylch iddo, goglais ychydig arno.

Mae'r darllenydd feallai wedi bwrw careg i lyn ac wedi gweled y canlyniad; mae'r gareg yn gyru'r dwfr yn dònau. Felly y mae unrhyw beth sydd yn creu swn yn gwneuthur yn yr awyr, mae'n taflu'r awyr i dònau. Tarawiad y tònau yma ar bilen y glust yw swn, hyny yw yr hyn a alwn ni yn glywed. Nid yw *range* pob creadur i glywed ddim yr un peth, na *range* pob dyn chwaith. Amrywiaeth rhifedi y tònau sydd yn taro ar y glust mewn eiliad sydd yn peri amrywiaeth swn. Po iselaf fo'r swn, lleiaf lluosog fydd y tònau mewn eiliad. Dywedir fod tant sydd yn gwneuthur 16 o ddirgryniadau dyblon yn ffurfio un pen i *range* y clywed i ddyn. Swn isel, trwm, ydyw y swn hwnw. Po fyraf fo'r tant, lluosocaf fydd y dirgryniadau. Mae tant sydd yn gwneuthur y swn D yn fyrach nâ'r tant sydd yn gwneuthur C, ac wrth luosogi'r dirgryniadau ffurfir nodau uwch o hyd; a pho uwchaf yr ânt, meinaf fyddant, nes cyrhaedd y *point* uwchaf y gall y glust ei ddal, ac yna ni waeth pa faint y lluosogir ar y dirgryniadau, chwareuant mewn dystawrwydd tragwyddol mor bell ag y mae y wnelo ein clustiau ni â hwy. Y pen hyn i allu clywedigol dyn yw 27,000 o ddirgryniadau mewn eiliad.

Dymunaf yn awr ar y darllenydd i gadw ei ddychymmyg ar waith. Cadwed ef ar y *stretch* fel y gallo ddylyn y sylwadau canlynol. Dychymmyged beiriant yn troi gwialen, ar y cyntaf yn araf araf, ac yna'n gyflymach gyflymach, nes gellir troi unrhyw nifer o weithiau mewn eiliad. Mae hynyna yn berffaith alluadwy i'r dychymmyg, er nad yw mewn gwir yn *practicable.* Tybier fod y peiriant yn gweithio mewn ystafell dywell. Cyhyd ag y byddo yn troi yn araf, ni fyddwch yn teimlo un ddylanwad, oddieithr chwi fyned yn rhy agos a chael ergyd. Ond can gynted ag y delo i droi rhyw 16 neu 20 gwaith mewn eiliad, fe glywir math o swn y gallwn ei alw yn rhuo. Ond fel y byddo'r troadau yn lluosogi, bydd y swn yn llai rhuadwy, a phob yn ychydig gyda'r cynnydd parhaus daw y swn yn feinach feinach, nes y byddo yn ysgrech fain. Bydd y troadau erbyn hyn i gael eu cyfrif wrth y degau o filoedd, a bydd y swn yn boen i'r glust. O'r diwedd, pan fyddo'r troadau wedi cyrhaedd tua 40,000 mewn eiliad, byddis wedi cyrhaedd tawelwch mawr. Bydd *range* y dystawrwydd ar y pen draw i'r gallu clywedigol wedi ei gyrhaedd, ac ni thorir arno byth mwy. Ond i barhau y dychymmyg, meddylier fod y peiriant yn ychwanegu ei gyflymder yn barhaus, a hyny am hir amser, nes y cyrhaeddo filiwn mewn eiliad, erbyn hyny byddwch yn teimlo ychydig o wres yn dyfod atoch oddiwrth y peiriant. A thra fo cyflymder y peiriant yn cynnyddu, bydd y gwres yn cynnyddu, ac heb fod yn hir daw yn annghherddol ac annyoddefol. Ac wedi myned trwy y degau, y cannoedd, y miloedd o filiynau, ie, miliynau o filiynau, a'r

gwres o hyd yn cynnyddu, pan ddeuir at y 400 miliwn o filiynau, byddir o hyd ó fewn *range* y teimlad, ond bydd *range* y gweled erbyn hyn yn dechreu hefyd. Y lliw coch gwan yn dyfod hyd atom oddiwrth y peiriant. Ond tra mae'r cyflymdra eto'n parhau, daw'r amser i'r gwres hefyd ddarfod a diflanu, fel y gwnaeth y swn. Bydd y lliw coch erbyn hyny wedi troi yn lliw melyn—i'r llygad—wedi hyny yn lliw gwyrdd, wedi hyny yn las, ac wedi hyny, yn olaf yn *violet*. Ac ar ol hyn, bydd y troadau wedi cyrhaedd 800 miliwn o filiynau mewn eiliad—ac yna bydd tywyllwch—nos fel yn y dechreu. Byddwn allan o gyrhaedd pob synwyr o eiddo dyn, fel na ellir tori mwy ar y tawelwch. Nad faint gynnyddo'r cyflymdra ni ddaw byth mwy o fewn cyrhaedd yr un o synwyrau dyn. Felly yr eir trwy *range* y Swn, y Gwres, y Lliw, ac y gwelwn fod dechreu a diwedd pob un o honynt yn dibynu ar yr hyn a elwir gan y Sais yn *motion*.

S.

BREUDDWYD PLENTYN AM Y SEREN.

GAN CHARLES DICKENS.

Yr oedd unwaith blentyn bychan, yr hwn a gerddai gryn lawer oddiamgylch, ac a feddyliai am lawer iawn o bethau. Yr oedd ganddo chwaer, yr hon hefyd oedd blentyn, ac yn gydymaith barhaus iddo ef. Byddai y ddau yn arfer rhyfeddu drwy gydol yr holl ddydd. Rhyfeddent at brydferthwch y blodeu; rhyfeddent at uchder y wybr las; rhyfeddent at ddyfnder y dwfr dysglaer; rhyfeddent at ddaioni a gallu Duw, yr hwn a wnaeth y ddaear anwyl.

Arferent ddyweyd wrth eu gilydd ar brydiau: tybier fod yr holl blant sydd ar y ddaear yn marw, a fyddai yn ddrwg gan y blodeu, y dwfr, a'r wybr? Yr oeddynt hwy yn credu y byddai yn ddrwg ganddynt. Oblegid, meddent, y blagur ydynt blant y blodeu; y ffrydiau chwareus sydd yn prancio i lawr y llethrau ydynt blant y dwfr; a'r ysmotiau dysglaer lleiaf sydd yn chwareu mig yn y ffurfafen drwy y nos, rhaid yn sicr mai plant y ser ydynt; a byddai yn alar iddynt oll weled eu cymdeithion, plant dynion, yn myned, ac na byddont mwy.

Yr oedd un seren lachar glir yn arfer dyfod allan yn y ffurfafen o flaen y lleill, yn ymyl pigdwr yr eglwys, uwchben y beddau. Yr ydoedd yn fwy ac yn dlysach, dybient hwy, nâ'r lleill i gyd, a phob nos byddent yn gwylied am dani, gan sefyll law yn llaw yn ymyl y ffenestr. Byddai yr un a'i gwelai gyntaf yn gwaeddi allan, "Rwy'n gweled y seren!" A llawer gwaith y llefodd y ddau ar unwaith, gan mor dda y gwyddent pa bryd y cyfodai, ac yn mha le. Felly daethant i fod yn gymmaint ffryndiau â hi, fel, cyn gorwedd i lawr yn eu gwelyau, yr edrychent allan bob amser am unwaith drachefn, i ddywedyd nos da wrthi; a phan y byddent eill dau yn troi i gysgu, arferent ddywedyd—"Duw a fendithio y seren!"

Ond tra yr oedd hi etto yn bur ieuanc—O! yn bur ieuanc—gwywodd y chwaer, ac aeth mor wan fel nas gallai mwyach sefyll yn y ffenestr yn yr hwyr; ac yna byddai y bachgen yn syllu allan yn brudd wrtho ei hun, a phan y gwelai y seren, yn troi ac yn dweyd wrth y gwyneb llwyd, amyneddgar, oedd ar y gwely, "Yr wyf yn gweled y seren!" ac yna deuai gwên ar y wyneb, ac arferai llais bychan gwan ddyweyd, "Duw fendithio fy mrawd, a'r seren!"

Ac yna daeth yr amser, yn llawer rhy fuan! pan yr edrychai y plentyn allan ei hunan, ac nad oedd yr un wyneb ar y gwely; a phryd yr oedd bedd bychan yn mysg y beddau, nad oedd yno o'r blaen; a phryd yr oedd y seren yn anfon pelydrau hirion i lawr tuag ato, fel yr oedd yn edrych arni trwy ei ddagrau.

Yn awr, yr oedd y pelydrau hyn mor ddysglaer, ac ymddangosent yn gwneyd ffordd mor lachar o'r ddaear i'r nefoedd, fel pan aeth y plentyn i'w wely unig, y breuddwydiodd ei fod, tra yn gorwedd lle yr oedd, yn gweled tyrfa o bobl yn cael eu dwyn i fyny y llwybr dysglaer hwnw gan engyl. A'r seren yn agor a ddangosodd iddo fyd mawr o oleuni, lle yr oedd llawer ychwaneg o'r cyfryw engyl yn aros i'w derbyn.

Yr holl engyl hyn, y rhai oeddynt yn dysgwyl, a droisant eu llygaid tryloewon ar y bobl a gludid i fyny i'r seren; a daeth rhai allan o'r rhengau hirion yr oeddynt yn sefyll ynddynt, ac a syrthiasant ar yddfau y bobl, ac a'u cusanasant yn serchog, ac aethant gyda hwynt i lawr rhodfeydd o oleuni; ac yr oeddynt mor ddedwydd gyda hwynt fel y gorweddodd ef yn ei wely, ac y wylodd o lawenydd.

Ond, yr oedd llawer o engyl nad aethant gyda hwynt, ac yn eu plith un ag yr oedd ef yn ei hadnabod. Yr oedd y gwyneb amyneddgar a orweddai unwaith ar y gwely, yn awr yn ogoneddus a nefolaidd; ond canfyddodd ei galon ef ei chwaer yn mysg yr holl lu.

Yr oedd angel ei chwaer yn ymdroi yn ymyl y fynedfa i'r seren, a dywedodd wrth flaenor y rhai a ddygasant y bobl yno:

"A yw fy mrawd wedi dyfod?"

Ac yntau a ddywedodd, "Nac ydyw."

Yr ydoedd hi yn troi ymaith yn obeithiol, pan yr estynodd y plentyn ei freichiau allan, ac y llefodd: "O! fy chwaer, yr wyf fi yma! Cymmerwch fi!" ac yna y trodd hi ei llygaid tryloewon arno, a nos ydoedd! ac yr oedd y seren yn tywynu i'r ystafell, yn taflu pelydrau hirion tuag ato, pan ydoedd yn edrych arni trwy ei ddagrau.

O'r awr hono allan, edrychodd y plentyn ar y seren fel ar y cartref yr oedd ef i fyned iddo pan ddeuai ei amser; a meddyliai nad oedd ef yn perthyn i'r ddaear yn unig, ond i'r seren hefyd, o herwydd angel y chwaer a aethai yno o'i flaen.

Ganwyd baban i fod yn frawd i'r plentyn; a phan ydoedd mor fychan na siaradodd air erioed, estynodd ei gorph bychan ar ei wely, a bu farw.

Drachefn, breuddwydiodd y plentyn am y seren agored, ac am gymdeithas yr engyl, ac am y dyrfa o bobl, a'r rhengau o engyl a'u llygaid tryloewon i gyd wedi eu troi ar wynebau y bobl hyny.

Ebe angel ei chwaer wrth y blaenor:

"A yw fy mrawd wedi dyfod?"

Ac yntau a ddywedodd, "Nid yw yr un hwnw, ond un arall."

Pan welodd y plentyn angel ei frawd yn ei breichiau, efe a lefarodd, "O! fy chwaer, yr wyf fi yma! Cymmerwch fi!" A hi a drodd ac a wenodd arno, a'r seren oedd yn tywynu.

Tyfodd i fyny yn ddyn ieuanc, ac yr oedd yn brysur gyda'i lyfrau pan ddaeth hen forwyn ato, ac a ddywedodd:

"Dy fam nid yw mwyach! Yr wyf yn dwyn ei bendith ar ei hanwyl fab!"

Drachefn, yn y nos efe a welodd y seren, a'r holl gwmni blaenorol hwnw. Ebe angel ei chwaer wrth y blaenor:

"A yw fy mrawd wedi dod?"

Ac yntau a ddywedodd, "Dy fam!"

Torodd gwaedd fawr o lawenydd drwy yr holl seren, o herwydd fod y fam wedi ei hail-uno â'i dau blentyn. Ac efe a estynodd allan ei freichiau, ac a lefodd, "O! fy man, fy chwaer, a fy mrawd, yr wyf fi yma! Cymmerwch fi!" A hwy a'i hatebasant ef, "Ddim etto," a'r seren oedd yn tywynu.

Tyfodd i fod yn ddyn a'i wallt wedi troi yn frith, ac yr oedd yn ei gadair yn ymyl y tân, yn drwm gan alar, a'i wyneb wedi ei wlitho â dagrau, pan yr ymddangosodd y seren unwaith yn rhagor.

Ebe angel ei chwaer wrth y blaenor:

"A yw fy mrawd wedi dyfod?"

Ac yntau a ddywedodd, "Na, ond ei ferch brydweddol."

A'r dyn a fu yn blentyn a welodd ei ferch, yr hon oedd newydd ei cholli, yn greadur nefolaidd yn mhlith y tri hyny, ac efe a ddywedodd: "Pen fy merch sydd ar fynwes fy chwaer, a'i braich sydd o amgylch gwddf fy mam, ac wrth ei thraed dyna faban hen amser, a gallaf finau ddyoddef fy ysgaru oddiwrthi, i Dduw y byddo'r diolch!"

A'r seren oedd yn tywynu.

Felly daeth y plentyn i fod yn hen wr, hagrodd ei wyneb, yr hwn a fuasai unwaith yn llyfn, ac yr oedd ei gamrau yn arafaidd a gwan, a'i gefn wedi crymu. Ac un noson, fel y gorweddai ar ei wely, ei blant yn sefyll oddiamgylch, efe a lefodd, fel y llefodd mor bell yn ol:

"Yr wyf yn gweled y seren!"

Hwythau sisialent y naill wrth y llall, "Y mae efe yn marw!"

Dywedodd yntau, "Ydwyf, Fy oedran sydd yn cwympo oddiarnaf megys gwisg, ac yr wyf yn symmud tuag at y seren fel plentyn. Ac O! fy Nhad! yr wyf yn diolch i Ti yn awr, iddi ymagor mor aml, i dderbyn yr anwyliaid hyny sydd yn fy nysgwyl."

A'r seren oedd yn tywynu; a thywyna ar ei fedd.

O "*Ceinion Llenyddiaeth Gymreig.*"

Manion.

Dywed Clement y dylem fwyta er mwyn byw ac nid byw er mwyn bwyta.

Crefydd.—Mae rhai yn edrych ar grefydd fel moddion doctor, tra mae ereill yn edrych arno fel bwyd angenrheidiol bywyd.

Beddargraff Socinus.—Luther a dynodd y to oddiar Babylon; Calfin a dynodd y muriau i lawr; Socinus a gloddiodd i fyny y seiliau.

Mae'r hwn sydd yn darostwng ei nwydau yn fwy gwron nâ'r hwn sydd yn darostwng gelyn; ac etto mae rhai dynion, er yn gallu llywyddu teyrnasoedd, yn gaethion i flys.

Na, nid wyf yn dweyd fod Morgan yn lleidr, ond hyn yr wyf yn ddweyd, pe buasai ei fferm ef a'm fferm inau yn ffinio â'u gilydd, ni threiwn i ddim cadw defaid.

Dwy Ochr.—Fallai eich bod am gael gwraig heb yr un ffaeledd yn perthyn iddi, ond beth os bydd y fenyw yr ydych yn hel ar ei hol yn dygwydd bod mewn angen am wr yn meddu yr un cymmeriad?

Ysgolion Sul.—Nid yw ffynnon dda byth yn sychu i fyny yn yr haf nac yn rhewi yn y gauaf. Felly yr Ysgolion Sul, os yn dda, nid ydynt yn peidio rhedeg ar dywydd poeth nac ar dywydd oer.

Duw.—Gofynodd cenadydd i Indiad, "Sut y gwyddoch chwi fod Duw yn bod?" Cyfeiriodd â'i fys at olion traed yn y tywod, a dywedodd, "Sut y gwyddoch chwi fod dynion wedi bod y ffordd yma?"

Mae gostyngeiddrwydd yn rhinwedd y mae pawb yn bregethu, ond ychydig yn arfer. Tybia'r meistr ei bod yn dda i'r gwas, a thybia'r bobl ei bod yn dda i'r offeiriad, a'r offeiriad ei bod yn dda i'r bobl.

Arwyddion Gwella.—"A ydy'r hen wr eich tad yn well y bore yma?" ebe un crwt wrth y llall pa ddydd. "Yn well," ebe Tom, "mi goeliaf ei fod, taech chi ddim ond ei wel'd yn bwrw coed tân ar ol mam y bore yma!"

Hunan.—Dangoswch i mi ddyn sydd am ffordd rydd i fyned i'r nefoedd wrtho ei hunan yn unig, os gall, a minau a ddangosaf i chwithau ddyn a fydd yn hir hir iawn cyn y caiff ddrws y nefoedd yn agored iddo.

Gwir ddyben addysg yw rhoddi i blant adnoddau a barhânt tra parhao bywyd, arferion fyddont yn cael eu gwella ac nid eu dinystrio gan amser, gorchwylion a wnant afiechyd yn oddefol, unigedd yn hyfryd, oedran yn barchus, bywyd yn fwy urddasol a mwy defnyddiol, ac angeu yn llai dychrynllyd.—*Sidney Smith.*

Garddwriaeth i'r Gwragedd Ieuainc:—Parotowch y *gwelyau* yn gynnar y bore; *hauwch* fotymau ar grysau eich gwyr; peidiwch a *chrafu* i fyny hen grach; amddiffynwch *gangenau ieuainc a thyner* eich teulu; *planwch* wên o dymher dda yn eich gwyneb; a *diwreiddwch* yn ofalus bob teimladau digllawn a dysgwyliwch am *grop* da o ddedwyddwch.

Patrick Henry.—Yr wyf yn awr wedi gwneuthur fy ewyllys a threfnu yr oll a feddaf i fy nheulu. Mae un peth yn ychwaneg y carwn ei adael iddynt, a hwnw yw y grefydd Gristionogol. Pe meddent hono, a minau heb swllt i'w adael iddynt, byddent gyfoethog; ond heb feddu hono, er i mi allu rhoddi iddynt yr holl fyd, byddent yn dlodion yn wir.

Nid yw y cyfrwywr yn cofio pob pwythyn a gymmerodd pan yn brentis, ac etto darfu i bob pwythyn wasanaethu i'w wneuthur yn gyfrwywr. Yr un modd y mae pob gweithred ydym wedi gyflawnu erioed o dda neu o ddrwg, pob teimlad ydym wedi borthi o garu neu gashau, wedi gwneuthur eu rhan i'n gwneuthur yn seintiau neu yn bechaduriaid.

Marw—Yn Mlodau ei Ddyddiau.—Mae Canon Liddon yn un o'i *Bampton Lectures*, ar ol ceisio mewn iaith wresog a hyawdl iawn i brofi Duwdod diammodol Iesu (*the absolute deity of Jesus*) yn galw sylw at y ffaith fod yr Iesu wedi marw yn mlodau ei ddyddiau (*in the prime of life*). Meddyliwch uwchben hynyna am foment—y Tragwyddol a'r Byth-fywiol Dduw yn marw yn mlodau ei ddyddiau!!

Rhesymeg yr Eglwys.—Geiriau Cardinal Person ydyw y rhai canlynol:—"Allwn ni ddim argyhoeddi Ariad allan o'r Ysgrythyrau; nid oes un ffordd i wneuthur hyny ond trwy awdurdod yr eglwys. Darfu iddynt dreio argyhoeddi Ariad (Edward Wightman), yn Lloegr, allan o'r Ysgrythyrau, ond *efe a'u dyrysodd hwynt bob un, ac felly darfu iddynt ei losgi.*"

Winciad Gwreddyn.—Mae rhyw lanc dysgedig yn hysbysu i ni fod gwybedyn yn cymmeryd un rhan o gant miliwn o

eiliad i wincio. Fe allai ei fod yn dywedyd y gwir, nid ydym yn gwybod, nid ydym wedi mesur yr amser erioed; ond yn awr gan fod yr amser wedi ei nodi yn gywir mewn ffigyrau, nid ydym yn gweled pam na ddylai masnach adfywio ychydig etto.

YN PALLU GWEITHIO YR AIL DRO.—Mae papur yn adrodd 'stori am ddyn oedd wedi bod yn breuddwydio fod ei fodryb wedi marw, ac fe drodd y breuddwyd allan yn wir, a daeth yr etifeddiaeth i'w ran ef. Mae ganddo fam-yn-nghyfraith, ac fe benderfynodd dreio'r breuddwydio arni hithau, ond methodd a gweithio; ac mae'r hen wraig, druan, yn chwareu'r ysgubell gystal ag erioed.

Gohebiaethau.

AT OLYGYDD YR "YMOFYNYDD."

Bydd pwyllgor tysteb y Parch. Lewis Evans yn ei ystyried yn ffafr os caniatewch i'r hyn a ganlyn ymddangos yn eich rhifyn nesaf.

Yr eiddoch, &c.,
Ar ran y pwyllgor,
J. M. PARRY.

GWOBR LLAFUR CARIAD,

Sef Trysorfa erbyn hen ddyddiau, i'r Parch. Lewis Evans, gweinidog y Deml, Casnewydd, a goruchwyliwr Trysorfa y Gweddwon yn Nghymru a swydd Fynwy.

MAE yr Hybarch Lewis Evans, bron cyrhaedd y driugeinfed flwyddyn o'i oedran. Mae ei lafur wedi bod yn fawr a llwyddiannus, nid yn unig mewn cyssylltiad â'r pwlpud, eithr hefyd gyda'r Genadaeth Dramor, Trysorfa y Weddw a'r Amddifaid, yn nghyda lluaws o achosion teilwng ereill, a theuluoedd ac unigolion mewn trallod a thrafferth, a'r oll yn llafur cariad; a bellach gelwir ar fod i rywbeth gael ei wneuthur, ar raddfa mor helaethed a maes ei lafur, er ei gyssuro yntau erbyn dyddiau blin.

Wrth son am lafur cariad Mr. Evans, y dywedai y diweddar Barch. Lewis Powell, Caerdydd,—"Bydd ei goffadwriaeth yn fendigedig." Mewn llythyr gwir werthfawr ar Drysorfa y Gweddwon, ysgrifenai y Parch. Owain Michael,—"Cyfodwn Dŵr iddo." Ac wrth son am lafur yr un gwr yn mhlaid y Gweddwon a'r Genadaeth, dywedai yr anwyl genadwr, y Parch. Thos. Evans, Delhi, [illegible] rawd ydoedd Lewis Evans, ag y carai [illegible] *weled dan ei goron.*" Gellid enwi amryw ereill ag sydd wedi amlygu eu teimladau yn ffafr gwneuthur rhywbeth o bwys mewn gwobr gydnabyddol o lafur mawr a llwyddiannus ein hanwyl weinidog, a hyny yn brydlon a chyffredinol.

Cawsom y fraint a'r hyfrydwch, flynyddau yn ol o wneuthur iddo gydnabyddiaeth fechan yn ein plith ein hunain fel eglwys, er amlygrwydd o'n parch tuag ato fel cyfaill cywir i'r holl frawdoliaeth, ac er cydnabod ei ffyddlondeb fel gweinidog da i Iesu Grist, a bugail gofalus ar ei braidd. Er fod ei lafur gymmaint gydag achosion ereill, nid yw yn esgeuluso ei gorlan ei hun, canys ni welir ef nemawr un amser yn absenol o gwrdd gweddi neu gyfeillach, chwaith yr Ysgol Sabbothol a'r pwlpud.

Gan ein bod wedi derbyn amryw awgrymiadau ac annogaethau pwysig oddiwrth frodyr da mewn cyssylltiad â'r mudiad hwn, yr ydym yn penderfynu ei gario allan ar raddfa eang; a hyderwn am gydweithrediad eglwysi, a brodyr a chwiorydd lawer yn yr anturiaeth, yn mhlith y Presbyteriaid, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr.

Yn awr gwahoddwn gyfeillion lluosog ein brawd dyngarol i ddyfod allan yn egniol fel un gwr o blaid y mudiad pwysig hwn heb oedi.

Dros yr eglwys,

DANIEL JAMES,
REES WILLIAMS,
DANIEL THOMAS, } Diaconiaid.

J. M. PARRY, Ysg. y Pwyllgor.

O.Y.—Nid gormod, feallai, fyddai taflu allan awgrym er cyrhaedd dau amcan

pwysig ar unwaith. Er holl lafur Mr. Evans, yn achos Trysorfa'r Gweddwon, y mae cannoedd o eglwysi yn y tri chyfenwad ar nad ydynt wedi gwneuthur nemawr ddim at y gymdeithas lesolfawr hon ag sydd wedi danfon cynnifer o filoedd o bunnau er cynnorthwyo Gweddwon ac Amddifaid Cymru. Er cael cydweithrediad mwy cyffredinol yn y dyfodol, bydded blwyddyn anrhydeddiad y goruchwyliwr yn flwyddyn i'w chofio mewn ychwanegiad mawr yn y cyfraniadau at y gymdeithas o Gymru; ac er mwyn sicrhau hyn, gwneler casgliad cyhoeddus trwy holl eglwysi y tri chyfenwad, a bydded un rhan (am eleni), er anrhydeddu y goruchwyliwr, a'r rhan arall at y gymdeithas; a bydded yr eglwysi yn y dyfodol barhau i wneuthur cyfran felly yn flynyddol, ac yna bydd lles dau ddyblyg wedi ei gyflawni, a'r hen oruchwyliwr llafurus yn cael modd i orfoleddu wrth weled llwydd ar achos y Weddw a'r Amddifaid yn Nghymru.

EIN CYRDDAU CWARTEROL A BLYNYDDOL.

At y golygydd.

Syr,—Priodol y sylwodd Mr. Lloyd, Cwmbach, ar ddiwedd y cwrdd diweddaf y gellir rhifo cwrdd blynyddol 1875, yn mhlith y pethau a fu.

Pan yn myned tua chartref y noson hono wedi bod y cwbl drosodd, yr oedd cwestiwn yn gwthio i'm meddwl, sef "Beth yw amcan neu ddyben y cyrddau hyn?" Yr oedd llawer o atebion yn ymgynnyg i mi, ond hyd yn bresenol yr wyf wedi methu disgyn ar un boddhaol.

Y mae'n hynod ddymunol i weled ein gweinidogion yn dyfod at eu gilydd o wahanol barthau o'r wlad yn awr ac eilwaith, ac i weled gwyr lleyg yn ymgasglu o wahanol fanau i fwynhau eu cynghorion a'u dysgeidiaeth; ond atolwg, a ydyw y gost a'r drafferth sydd yn angenrheidiol er cynnal y cyfarfodydd hyn yn ofynol er mwyn traddodi a gwrandaw rhyw saith neu wyth o bregethau.

Os mai er mwyn newydd-deb ac amrywiaeth yr ydys yn cynnal y cyfarfodydd hyn, awgrymwn fod i'n cynnulleidfaoedd fabwysiadu cynllun fel ag y gall ein gweinidogion newid llefydd ar y Sabboth yn awr ac yn y man, yn hytrach na chymmeryd rhyw ddau diwrnod bob tri mis i'r perwyl hyn.

Ni ddymunwn am foment, ac nid fy amcan yn gymmaint yw cael gwared o'r cyfarfodydd hyn, ag i geisio cael allan a ydyw ddim yn bossibl i wneyd y cyfarfodydd hyn yn fwy defnyddiol nag y maent yn bresenol; i weled a oes dim modd i gymmeryd mantais o'r cynnulliadau lluosog yma at ryw ddybenion mwy ymarferol, megys ystyried cwestiynau ag sydd yn dal cyssylltiad mwy uniongyrchol â'n cynnulleidfaoedd ni yn Nghymru. Dalir yn gyndyn at hen ddefodau yn y cyfarfodydd hyn, y rhai gellir yn hawdd yn fy meddwl i wneyd hebddynt—un o'r cyfryw ag sydd wedi dyfod yn sefydliad ynddynt ydyw y *Pwnc*.

Pan sefydlwyd yr arferiad yma, dichon fod galwad am gyfleusdra o'r fath. Ond yn awr pan mae y wasg mor gyfleus ac agored, nid oes cymmaint o'i angen. Yr wyf yn meddwl yr addefa y mwyaf amheus y gellir trafod unrhyw gwestiwn dyrys gyda mwy o nerth ac yn helaethach ar dudalenau yr Ymofynydd nag y gellir mewn cyfarfod o'r fath hyn. Hefyd, onid yw yn ffaith fod y cwrdd bore dydd Iau yn y cyfarfodydd hyn yn aml iawn yn myned yn faich o herwydd rhoddi gormod o haiarn yn y tân; ac oni wirioneddwyd yr hen ddywediad, "Yspeilio Pedr i dalu Paul," yn nghyfarfod diweddaf y Cwmbach, wrth gyfyngu un o'r pregethwyr i ugain mynud o amser, er myned yn y blaen at ran arall o'r cyfarfod, sef y pwnc? O ganlyniad, gwaith anhawdd oedd i'r pregethwr parchus wneyd cyfiawnder â'i destyn; felly o derfyniad y bregeth hyd ddiwedd y cwrdd, nid oeddwn yn ei ystyried yn fawr amgen nag amser yn cael ei dreulio yn ofer.

Bu amser pan treulid yr ychydig oriau rhwng ciniaw a'r cwrdd hwyrol er ystyried achosion perthynol i ni fel enwad, ac y mae'n ffaith i lawer o ddaioni ddeilliaw oddiwrth yr arferiad hwnw. Paham ynte y torwyd hyn? A ydyw ein syniadau ni mor llewyrchus yn Nghymru? A ydyw ein gweinidogion ni mor lluosog? Neu ynte a ydyw ein henwad ni mor flodeuog fel nad oes dim yn ein plith ni yn gofyn sylw neillduol? Cyhuddir ni yn fynych o ddiffyg sêl at ein hachos, ac y mae ein brodyr Trindodaidd yn priodoli hyn i wendid ein *system* ni. Yn sicr nid oes yr un Undodwr yn credu hyn, ond yn hytrach yn barod i ddadleu dros gywirdeb ei syniadau, a [illegible] eu bod mor addas i bawb ai nid [illegible] dyledswydd arnom i'w gwneyd yn [illegible] ldus i ereill?

Credwyf y byddai yn fanteisiol pe byddai i ni geisio efelychu mwy ar y modd y mae ein brodyr yn Lloegr yn cynnal eu cylchwyliau. Ystyriant hwy bregeth neu ddwy yn ddigonol, ac yna y maent yn ymroi i ystyried cwestiynau er lles eu cynnulleidfaoedd. Gobeithiaf y cymmer rhyw rai mwy galluog y sylwadau hyn mewn llaw, gyda golwg ar gael cynllun wedi ei dynu allan erbyn y cwrdd cwarterol nesaf.

Yr eiddoch, &c.,

Ap C.

— —

ONENFAWR, GER LLANDEILO.

Dydd Sul, Awst yr 8fed, talodd Ysgol Sabbothol y Gellionen, ei hymweliad blynyddol â'r lle uchod. Cafwyd hin ddymunol ar ol ystorm ddychrynllyd o fellt a tharanau, a llifogydd nos Wener a'r Sadwrn blaenorol. Digon yw dywedyd yma, fod yr adroddwyr a'r cantorion wedi cyflawnu eu gwaith yn gampus; yn wir, cawsom ein siomi ar yr ochr oreu; y mae clod yn ddyledus iddynt oll, am eu medr a'u ffyddlondeb. Ar ol i'r ysgol fyned drwy ei gwaith, terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Parch. D. L. Evans, o Gaerfyrddin. Teimla cynnulleidfa fechan yr Onenfawr yn wir ddiolchgar i'r ysgol am ei *treat*, gan hyderu y cofiant am danynt etto yn y dyfodol. Hefyd, teimlir yn ddiolchgar iawn i R. Davies, Ysw., Maesyffynnon, am ei garedigrwydd yn rhoddi benthyg ei gae i'r ysgrubliaid i bori.

Job Davies.

Barddoniaeth.

DYDD YR IACHAWDWRIAETH.

Wele ddydd yr Iachawdwriaeth
Wedi gwawrio'n siriol iawn,
Dydd dadblygiad gwir wybodaeth,
Dydd y nef yn ddwyfol ddawn;
Dydd i ddiosg ein calonau
Rhag drygioni o bob rhyw,
Dydd i ddianc rhag pob ofnau,
Dydd i rodio gyda Duw.

Blant afradlon, p'am yr oedwch,
Gyda'r cibau mor ddi fraw,
Dewch i 'mofyn gwir ddedwyddwch,
Tra mae'r adeg yn eich llaw;
'Nawr yw'r amser i ddarparu
Ein trigfanau yn y nef,
Ac i oruwch adeiladu,
Ar y graig dragwyddol gref.

Gwyn eu byd y gweision ffyddlon,
Sydd yn dringo grisiau'r gwawl;
Gyda'r Iesu fel un galon,
Y preswyliant yn ddi-dawl;
Ar flodeuog fryniau Canaan,
Yn dysgleirio fel y ser,
Brodyr purlan o'r un anian,
Yn clodfori nefawl Ner.

Edward Williams,
(Iolo Bach Glanteifi.)

I'R IEUENCTYD.

Chwi'r ie'nctyd llon, chwi flodau'r byd,
Anwyliaid Ior y nef;
Mae yn eich galw oll i gyd,
O deuwch ato ef.

Edrychwch ar yr Iesu mad,
Tra yma ar ei daith,
Yn rhodio gyda'i anwyl Dad,
A glynu wrth ei waith.

Myfyrio ar ei fywyd pur,
A'i egwyddorion glwys,
Rydd fôr o gyssur dan bob cur,
O bythol bethau dwys.

Fel hyn dangosodd ini gyd,
Pa fodd y dylem fyw,
Sef byw yn ddoethion yn y byd,
A chadw deddfau Duw.

Edward Williams,
(Iolo Bach Glanteifi.)

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

D. D., Llanelly; E. J., Swyddffynnon; E. T., Bwlch; J. J., Eiddil Cynon; W. J., Cwmbach; J. J., Hirwain Road; W. H., Cefn; J. P., Llanelly; L. W., Gellionen; T. J., Maesygarn.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF

GWAITH PRYDYDDAWL

Y

PARCH. DAVID DAVIS,

GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

FEL mae yn hyspys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diambeu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyniol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd, a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

I arbed y drafferth o ysgrifenu at y gweinidogion, dymunaf eu hatgofio, trwy gyfrwng amlen yr *Ymofynydd*, fod y cwrdd nesaf i gael ei gynnal yn y Nottais, ar y 29ain a'r 30ain o'r mis hwn. Carwn yn fawr eu gweled oll yn bresenol.

Pregethwr boreu dydd Iau,—y Parch. John Davies, Alltyplacca. Pwnc,—"Beth sydd *i'w ddeall* wrth FFYDD yn yr Ysgrythyrau."

TITUS LLOYD.

CYFFES FFYDD UNDODWR,

GAN

JOHN PAGE HOPPS.

24 tdd. Pris naw ceiniog y dwsin, neu 3s. a 6c. y cant.

Dyma gyfleusdra i gyfeillion wneuthur rhywbeth tuag at daenu egwyddorion Undodaidd. Anfonir hwy yn rhad trwy'r post am y telerau uchod. Anfoner at The Editor of YR YMOFYNYDD, Mount Pleasant Garden, Aberdare.

RHWYMIR LLYFRAU

O bob math, yn oda, ac am brisoedd rhesymol, gan JENKIN WILLIAMS, 5, Back Mount Pleasant, Trecynon, Aberdare.

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 8c., gyda'r post 8½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.